# Polisi Preifatrwydd

Dyddiad adolygiad nesaf Gorffennaf 2027

Mae'r polisi'n berthnasol i Staff/Gwirfoddolwyr/Ymddiriedolwyr

**Datganiadau Preifatrwydd SPAN**

Mae SPAN yn ymrwymedig i ddiogelu eich hawliau a'ch preifatrwydd ac yn sicrhau bod eich holl wybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn saff.

Mae SPAN yn dilyn gweithdrefnau sydd â'r nod o sicrhau bod yr holl weithwyr, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr ac eraill sydd â mynediad at unrhyw ddata personol a gadwyd gan neu ar ran SPAN yn llwyr ymwybodol o'u dyletswyddau o dan, ac yn cydymffurfio gyda, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018.

Os hoffech weld ein Polisi Diogelu Data llawn, cysylltwch ag info@span-arts.org.uk. Rheolir ein Swyddfa Docynnau ar-lein gan Ticketsolve ac mae taliadau yn cael eu prosesu trwy Ticketsolve Pay wedi'i integreiddio gyda Mangopay. Mae Mangopay S.A. yn sefydliad arian electronig awdurdodedig gan y Commission de Surveillance du Secteur Financier (CSSF) yn Lwcsembwrg i ddarparu gwasanaethau arian electronig a thaliadau. Bydd pob archeb, gan gynnwys y rhai a wneir dros y ffôn neu'n bersonol, yn cael eu prosesu trwy'r system hon. Nid ydym yn cadw manylion cerdyn ar ein system.

**Caniatâd Trydydd Parti.**

Rydym yn parchu eich preifatrwydd ac yn diogelu'r holl wybodaeth bersonol rydych yn ei darparu wrth brynu tocynnau. Dim ond ni fydd yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei darparu, a hynny i gyflawni gwasanaethau ac i'ch hysbysu am newyddion, cynigion a digwyddiadau yn y dyfodol. Fyddwn ni byth yn gwerthu unrhyw ran o'ch data, nac yn ei rannu ag unrhyw drydydd parti, cwmni marchnata, artist neu hyrwyddwr, heb eich caniatâd. Nid ydym yn anfon ein cronfa ddata ymlaen i gwmnïau allanol sy'n ymwneud â marchnata. Os ar unrhyw adeg, rydych eisiau i ni eich tynnu o'n cronfa ddata, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni.

**Y wybodaeth rydym yn ei chasglu:**

Gall SPAN gasglu, storio a defnyddio'r mathau hyn o ddata personol:

• Manylion trafodion a wneir wrth archebu tocynnau.

• Gwybodaeth a roddwch i ni at ddiben cofrestru.

• Unrhyw wybodaeth arall a ddewiswch ei darparu.

• Data sy'n ymwneud â gwirfoddoli neu gyflogaeth (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gwiriadau DBS, cofnodion salwch, tystlythyrau, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, holiaduron iechyd)

• Gwybodaeth am eich cyfrifiadur ac am eich ymweliadau â'n gwefan a'i defnyddio, e.e. eich cyfeiriad IP, lleoliad daearyddol, math o borwr, ffynhonnell cyfeirio, hyd yr ymweliad a nifer y tudalennau a welwyd. Nodwch nad yw'r wybodaeth hon yn adnabod unrhyw ddefnyddiwr unigol.

**Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth:**

Byddwn yn anfon e-byst yn tynnu sylw at ddigwyddiadau neu wasanaethau sydd ar ddod ac/neu e-byst ychwanegol ar gyfer pethau o ddiddordeb penodol os ydych wedi nodi unrhyw rhai. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi am ddigwyddiadau neu wasanaethau eraill a allai fod o ddiddordeb i chi os ydych wedi dewis caniatáu hyn.

Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir ar ffurflenni adborth neu a gasglwyd trwy gymryd rhan yn ein prosiectau neu fel rhan o'n cynllun Cyfeillgarwch ond yn cael ei defnyddio gennym ni a ni'n unig i wella ein gwasanaethau a'n helpu i ddeall ein cynulleidfa yn well. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei dadansoddi a rhoddir y data demograffig (nid data personol) i'r rhai sy'n ein hariannu er mwyn ein helpu i adeiladu achos dros gefnogi ein gwaith. Bydd data personol yn cael ei storio'n ddiogel ac yn cael ei drin yn gyfrinachol yn unol â rheoliadau GDPR.

Bydd unrhyw wybodaeth a gesglir o ganlyniad i gyflogaeth neu wirfoddoli (gan gynnwys Ymddiriedolwyr) gyda SPAN yn cael ei phrosesu at ddibenion gweinyddol, cyfreithiol, rheoleiddio neu reoli yn unig. Byddwn ond yn rhannu data anhysbys am wirfoddolwyr gyda'r rhai sy'n ein hariannu i adrodd ar rifau a demograffeg ein gwirfoddolwyr. Bydd yr holl ddata personol yn cael ei storio'n ddiogel ac yn cael ei drin yn gyfrinachol yn unol â rheoliadau GDPR. Bydd data'n cael ei gadw am hyd eich gweithgaredd gyda SPAN ac am 6 blynedd wedyn yn unol â'n polisi cadw data.

Bydd gwybodaeth am artistiaid ond yn cael ei phrosesu at ddibenion gweinyddol a rheoli. Caiff ei storio'n ddiogel ac yn cael ei drin yn gyfrinachol. Bydd data'n cael ei gadw am hyd eich gweithgaredd gyda SPAN ac am 6 blynedd wedyn yn unol â'n polisi cadw data.

Os dymunwch weld ein Polisi Cadw Data llawn, cysylltwch ag info@span-arts.org.uk

Os ydych chi'n credu bod problem gyda'r modd mae SPAN yn trin eich data, mae gennych yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

**Cwcis**

Rydym yn defnyddio cwcis ar ein gwefan. Mae cwci yn ffeil destun a anfonir gan weinydd gwe i borwr gwe ac yn cael ei gadw gan y porwr. Yna bydd y ffeil

destun yn cael ei anfon yn ôl at y gweinydd bob tro mae'r porwr yn gofyn am dudalen o'r gweinydd. Mae hyn yn galluogi'r gweinydd gwe i adnabod a dilyn y porwr gwe.

Mae cwcis yn hanfodol i’r broses o archebu’ch tocynnau trwy’n gwefan, gan ddefnyddio system Ticketsolve, ond maent ond dros dro a byddant yn diflannu pan fyddwch chi'n gorffen eich sesiwn

Gallwn anfon cwci y gellir ei gadw ar eich gyriant caled a defnyddio'r wybodaeth a gawn wrth weinyddu a gwella'r wefan.

Ni allwn gymryd cyfrifoldeb am gwcis sy'n ymwneud â nodweddion trydydd parti fel Facebook, Twitter, Google ayb. Mae gan drydydd partïon eu polisïau eu hunain yn ymwneud â chwcis ar eu gwefannau.

Efallai y byddwn yn defnyddio Google Analytics i ddadansoddi’r defnydd o’n gwefan. Mae Google Analytics yn cynhyrchu gwybodaeth ystadegol trwy ddefnyddio cwcis. Defnyddir y wybodaeth a gynhyrchir i greu adroddiadau am y defnydd o’n gwefan. Bydd Google hefyd yn cadw'r wybodaeth hon.

**Dad-danysgrifio**

Os ydych chi eisiau dad-danysgrifio o'n e-byst neu i newid neu ddiweddaru eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â ni'n uniongyrchol, defnyddiwch y dolenni ar waelod e-byst neu mewngofnodwch i'ch cyfrif Ticketsolve i ddiweddaru gwybodaeth.

**Diwygiadau**

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r polisi hwn trwy bostio fersiynau newydd ar ein gwefan. Dylech wirio'r dudalen hon yn rheolaidd i sicrhau eich bod yn fodlon gyda'r newidiadau. Efallai hefyd y byddwn yn hysbysu am newidiadau i'n polisi preifatrwydd trwy e-bost.

---

Cymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr: ____3/8/26_________________

Arwyddwyd: Sue Lewis (Cadeirydd~~/ Trysorydd / Ysgrifennydd~~)

Dyddiad yr adolygiad nesaf: __ ___July 2027__________________